ADRODDIAD INTERIM AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH

2015-2016

1. Cefndir gosod y Safonau Iaith

Derbyniwyd hysbysiad cydymffurfio y Safonau Iaith newydd ym mis Medi 2015 a daethant i rym ar y 31 o Fawrth 2016.

O'r dyddiad hwnnw, felly, nid oedd gofyniad statudol i'r Cyngor adrodd ar weithrediad ei Gynllun Iaith, a ddaeth i ben ar ddyddiad gosod y Safonau. Bydd y Cyngor o hyn ymlaen yn darparu adroddiad blynyddol fydd yn cynnwys y manylion hynny y gofynnir amdanynt yn y Safonau Iaith.

Gan na ddaeth y Safonau yn weithredol nes diwedd Mawrth, bydd yr adroddiad hwn yn adrodd yn bennaf ar y camau a gymerwyd a'r gweithdrefnau sydd wedi eu rhoi ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith.

2. Camau gweithredu hyd yma

Aethpwyd ati, wedi derbyn yr hysbysiad cydymffurfio, i gynnal trafodaeth gyda phenaethiaid gwasanaeth, arweinwyr y Cyngor ac aelodau er mwyn asesu a oedd unrhyw safonau yn peri pryder gwirioneddol neu oedd yn mynd i olygu gweithredu o rhyw fath.

Barnwyd bod nifer sylweddol y Safonau eisoes yn cael eu cyflawni gan staff a gwasanaethau'r Cyngor, a bod nifer fechan y byddai angen rhoi camau neu newidiadau ar waith cyn diwedd Mawrth er mwyn ein galluogi i gydymffurfio.

Roedd y camau cyffredinol a gymerwyd i ddelio a'r newidiadau fyddai eu hangen o ganlyniad i'r trafodaethau cychwynnol hyn yn cynnwys:

- Cyhoeddi copi o'r Safonau ar ein gwefan gyhoeddus, ac anfon copïau i'n prif dderbynfeydd er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y Safonau hynny y mae'r Cyngor dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.
- Cynnal cyfarfodydd unigol gyda swyddogion mewn gwasanaethau fyddai'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan y Safonau hefyd, a'r rheiny yn cynnwys y gwasanaeth Caffael, Adnoddau Dynol, y Gwasanaethau Cymdeithasol (gan drafod effaith cronnol y Safonau a Strategaeth Mwy na Geiriau), a'r tîm Dysgu a Datblygu.
- Cyhoeddi Polisi Iaith newydd i'r Cyngor, fyddai yn atgyfnerthu sefyllfa'r Safonau, yn amlinellu y dull gweithredu fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r safonau ac yn parhau i yrru gwasanaethau'r Cyngor i weithredu y tu hwnt i'r gofynion statudol a hyrwyddo'r iaith drwy bob rhan o'u gwaith.
- Llunio canllawiau atodol i'r Polisi Iaith fyddai yn cynorthwyo swyddogion yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Hyd yma mae dau ganllaw wedi eu paratoi.
    1. Canllaw Staff i'r Polisi Iaith
    2. Canllaw gosod amodau ieithyddol wrth osod cytundebau

Gwaith datblygol:

- **Modiwl Ymwybyddiaeth Iaith** – mae ymwybyddiaeth iaith eisoes yn cael ei gynnig fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfforaethol, ond wedi sgwrs gyda swyddogion Dysgu a Datblygu cytunwyd i lunio modiwl ar-lein newydd fydd ar gael i bob aelod o staff y Cyngor ac a fydd yn anelu at wella ymwybyddiaeth y gweithwyr o ofynion y Safonau a'r Polisi Iaith newydd, ynghyd ag arferion da wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd.
- **Asesiad sgiliau iaith –**mae gwaith wedi cychwyn gan yr uned Adnoddau Dynol ar gynllun asesu sgiliau, fydd yn mynd ati i edrych ar y gofynion iaith a osodir ar gyfer swyddi a'r modd y byddwn yn monitro cynydd swyddogion wrth iddynt geisio gwella eu sgiliau iaith. Bydd hyn yn ein galluogi i dargedu hyfforddiant a chael gwell syniad o alluoedd y gweithlu i gynnig bob rhan o'r gwasanaeth yn y Gymraeg.

Yn ogystal â'r gweithredu cyffredinol, cymerwyd camau penodol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â rhai o'r Safonau:

Safon	**Dosbarth**	**Geiriad y Safon**	**Camau Gweithredu.**
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	Rhannwyd pecynnau posteri a bathodynnau/cortyn gwddw Iaith Gwaith i bob un o brif dderbynfeydd y Cyngor gydag esboniad o'r ymrwymiad i'w defnyddio yn y Safonau. Mae'r un adnoddau ar gael i unrhyw weithiwr rheng flaen sydd yn dymuno eu defnyddio.
68	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	
98	Gweithredu	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	Cafodd Polisi Iaith newydd y Cyngor ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 3ydd o Fawrth 2016 a cyhoeddwyd ar wefan gorfforaethol y Cyngor ar y 30 o Fawrth 2016.
127	Gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	Rydym eisoes yn casglu gwybodaeth flynyddol am allu staff i siarad Cymraeg, ond mynegwyd awydd i fynd y gam ymhellach, fel y nodir yn Safon 151 i gadw cofnod o lefel sgiliau cyflogeion. Cafwyd cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Iaith i ddatblygu cynllun asesu newydd fydd yn gosod lefelau iaith ymarferol sydd yn cyd-fynd â lefelau iaith CBAC ac yn galluogi asesu cyrhaeddiad swyddogion yn erbyn y gofynion iaith hynny.

134	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	Wrth roi cyhoeddusrwydd i'r Polisi Iaith newydd ar fewnrwyd y Cyngor, darparwyd linc i wefan y Comisiynydd, lle mae posib cael logo ebost i ddynodi bod modd cyfathrebu yn Gymraeg gyda gweithwyr. Bydd sylw pellach yn cael ei roi i hyn yn ystod y flwyddyn.

3. Adrodd ar berfformiad

3.1 Cwynion Iaith

Mae trefn newydd wedi ei chreu ar gyfer cofnodi cwynion iaith o Fawrth 2016 ymlaen, fydd yn gwahaniaethu rhwng y cwynion hynny sydd yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r rhai sydd yn ymwneud â Pholisi Iaith y Cyngor. Byddwn hefyd yn cofnodi pa gategori o Safonau y mae'r gwyn yn ymwneud â hi, yn ogystal â chofnodi unrhyw gamau pellach a gymerir er mwyn cryfhau gwasanaethau yn sgil y gwyn.

I bwrpas yr adroddiad hwn, cofnodir y cwynion a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at Mawrth 2016 fel y cyflwynwyd hwy i'r Pwyllgor Iaith.

Adroddwyd i Bwyllgor Iaith 23 Ebrill 2015

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Mawrth 2015	Cwyn drwy Swyddfa'r Comisiynydd ynglŷn â gwendid mewn darpariaeth Gymraeg gan Cyd-Cymru y mae'r Cyngor yn cyfeirio trigolion atynt i geisio arbed costau ynni cartref	Wedi ateb gan nodi nad gwasanaeth gan y Cyngor yw hwn, bod camau wedi eu cymryd i sicrhau bod gymaint o'r gwasanaeth ag sy'n bosib ar gael yn y Gymraeg (pob dim heblaw un cam). Rydym yn disgwyl ymateb y Comisiynydd i'r ymateb

Adroddwyd i Bwyllgor Iaith 18 Mehefin 2015

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
Ebrill 2015	Cwyn a gyfeiriwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd ynghylch arwydd uniaith Saesneg wedi ei osod yn un o feysydd parcio Cyngor Gwynedd, yn agos at y twnnel yng Nghaernarfon.	Y gwasanaeth perthnasol wedi ymchwilio i'r mater a chanfod bod yr arwydd Cymraeg wedi diflannu dros nos (wedi ei ddwyn o bosib). Roedd oedi wedi bod cyn gosod arwydd newydd o ganlyniad i absenoldeb salwch y swyddog cyfrifol ond trefnwyd bod y cwmni arwyddion yn mynd i osod arwydd newydd cyn diwedd yr wythnos. Cysylltwyd â Swyddfa'r Comisiynydd i roi eglurhad a chadarnhad bod y mater wedi cael ei ddatrys.
Ebrill 2015	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am iddynt dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg gan Dŵr Cymru. Roedd y llythyr gan Dŵr Cymru yn deillio o ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd, felly roedd yr achwynydd yn cwestiynu iaith yr ohebiaeth	Holwyd y gwasanaeth perthnasol ac anfonwyd copi o'r ohebiaeth wreiddiol at yr achwynydd fel tystiolaeth bod y Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith, ac wedi anfon gohebiaeth dwyieithog at Dŵr Cymru.

	wreiddiol gan Gyngor Gwynedd.	
Ebrill 2015	Cwyn gan Swyddog o'r Adran Addysg am lythyr a dderbyniodd gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gyda Chymraeg gwallus ac annealladwy.	Cysylltodd y Swyddog yn uniongyrchol â swyddfa'r Tribiwnlys i dynnu eu sylw at y gwallau a derbyniwyd llythyr diwygiedig o fewn yr wythnos.
Ebrill 2015	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am dderbyn ffurflen pleidlais bost uniaith Saesneg	Cyfeiriwyd y mater at yr Uwch Reolwr sydd â chyfrifoldeb am yr Uned Etholiadol. Eglurwyd fod y broses o gofrestru ar-lein yn digwydd drwy wefan ganolog y llywodraeth yn Llundain. Os gofynnir am ffurflen i gael pleidlais bost, fe'i hanfonir yn uniongyrchol o'r wefan fel atodiad i'r e-bost cydnabod, fel y mae'n ymddangos y digwyddodd yma. Nid y Cyngor felly sydd yn gyfrifol am ei hanfon. Ar y llaw arall, os derbyniwn gais yn uniongyrchol, yna anfonir ein ffurflen ddwyieithog at yr ymgeisydd.
Mai 2015	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â Swyddog Gorfodaeth Parcio di-Gymraeg	Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Rheoleiddio, a bu iddynt ymddiheuro ac ymateb i gwyn yr achwynydd gan ddileu dyled y tocyn parcio yn sgil amgylchiadau arbennig yr achwynydd ar y pryd.
Mehefin 2015	Cwyn gan Gynghorydd lleol am arwyddion uniaith Saesneg ar Ffordd y Coleg, Bangor	Cyfeiriwyd y mater at swyddog yn yr Adran Briffyrdd. Wedi iddo gysylltu gyda'r contractwyr, cytunodd y cwmni i symud yr arwyddion. Nid oeddynt wedi derbyn caniatâd Cyngor Gwynedd i osod yr arwyddion.

Adroddwyd i Bwyllgor Iaith 22 Hydref 2015

CWYNION YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH		
DYDDIAD	**CWYN**	**YMATEB.**
Mai 2015	Cwyn ynghylch ateb allan o'r swyddfa (ar e-bost) uniaith Saesneg gan Gynghorydd	Cadarnhawyd nad yw'r aelodau yn atebol i'r Cynllun Iaith yn yr un modd a swyddogion y Cyngor, ond cafwyd trafodaeth am yr angen i roi arweiniad clir i aelodau am y disgwyliadau arnynt i gyfathrebu yn ddwyieithog. Tynnwyd sylw'r Cynghorydd i'r mater dan sylw a

		chadarnhawyd mai camgymeriad yn unig oedd yr ymateb uniaith. Anfonwyd esboniad i'r achwynydd a chafwyd ymateb yn derbyn yr esboniad.

CWYNION ANFFURFIOL		
DYDDIAD	**CWYN**	**YMATEB.**
Gorffennaf 2015	Cwyn am ddeunyddiau uniaith Saesneg yn cael eu defnyddio fel rhan o ddigwyddiad cyhoeddus yn y Friog (Cynllun Rheoli'r Arfordir)	Cadarnhawyd bod fersiynau Cymraeg o'r adroddiad a'r posteri dan sylw wedi eu cylchredeg hefyd. Mater wedi symud ymlaen i fod yn gais rhyddid gwybodaeth ac yn cael ei drin gan Swyddog o'r adran Rhyddid Gwybodaeth.
	Cyfeiriwyd cwyn am ddiffyg darpariaeth Gymraeg ar wefan y bydd ysgolion yn cael eu cyfeirio ati gan y Llywodraeth i gael gwybodaeth a chyngor arbenigol yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored (gwefan OEAP)	Ymddengys bod hwn yn fater oedd eisoes wedi cael sylw gan yr adran Addysg yn niwedd 2014. Anfonwyd ymholiad o'r newydd at swyddogion yn Adran Addysg a Sgiliau'r Llywodraeth i holi oedd unrhyw bosibilrwydd o gyfieithu'r canllawiau allweddol. Derbyniwyd esboniad pam nad yw'r llywodraeth yn mynd i dalu am gyfieithu'r adnoddau. Roedd yr ymateb hwn yn uniaith Saesneg.

Adroddwyd i Bwyllgor Iaith 14 Ionawr 2016

CWYNION FFURFIOL YN ERBYN Y CYNLLUN IAITH		
DYDDIAD	**CWYN**	**YMATEB.**
Mehefin 2015	Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyf: 1970) ynghylch methiant honedig i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y gwyn yn ymwneud yn benodol â dogfennau yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Roedd rhestr o ddogfennau wedi eu rhoi ar wefan y Cyngor a nodyn yn hysbysu'r cyhoedd bod modd cael copïau o'r dogfennau ar gais, ond yn Saesneg yn unig. Dogfennau technegol gan ddarparwyr allanol oedd y rhain.	Wedi ymchwilio i'r mater, cadarnhawyd bod y dogfennau wedi eu cynnig yn Saesneg yn unig, ond y byddent yn cael eu cyfieithu maes o law fel rhan o'r broses arferol wedi ymgynghoriad. Nid oedd yr Adran Gynllunio wedi derbyn unrhyw geisiadau am y dogfennau a restrwyd, yn Saesneg nac yn Gymraeg, ac nid oeddynt wedi eu cyhoeddi yn llawn ar wefan y Cyngor gan nad oeddynt yn ddogfennau oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Datblygu. Roedd y rhestr wedi ei pharatoi a'i chynnig fel dogfennau

		gwybodaeth bellach allai fod o ddiddordeb, nid fel rhai oedd yn angenrheidiol i'r broses ymgynghori. Derbyniodd Rheolwr Cynllunio (Polisi) yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd y cyfrifoldeb am y penderfyniad i gynnwys y rhestr ar y wefan yn unig ac i beidio cynnig y dogfennau yn ddwyieithog. Bu gohebu cyson rhwng swyddogion y Comisiynydd a'r Uned Hyrwyddo Iaith, dros rai misoedd, ar y mater, a daethpwyd a'r mater i ben ym mis Rhagfyr 2015 heb unrhyw gamau pellach. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod y Cyngor wedi torri amodau ei Gynllun Iaith gan fod y dogfennau yn rhai cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn gadarn yn ei farn nad oedd unrhyw fwriad gan yr Uned Polisi Cynllunio i gamarwain na dal gwybodaeth angenrheidiol i'r ymgynghoriad yn ôl. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i eiriad y polisi iaith newydd er mwyn sicrhau bod y canllawiau ar ddogfennau cyhoeddus yn eglur.
Medi 2015	Derbyniwyd cwyn gan Gomisiynydd y Gymraeg (cyf. 2057 – derbyniwyd 10 Medi 2015) ynghylch methiant i ddarparu Tystysgrif Marwolaeth dwyieithog ac i fethu cofnodi'r achos marwolaeth yn Gymraeg.	O ganlyniad i natur hynod sensitif y gwyn, ymchwiliwyd yn fanwl iawn i'r achos hwn. Cadarnhawyd nad oedd Swyddfa Gofrestru Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am anfon tystysgrifau Saesneg/dwyieithog i'r achwynydd, ond yn hytrach eu bod wedi eu cyhoeddi gan Swyddfa'r Crwner. Roedd y Swyddfa Gofrestru wedi cyhoeddi tystysgrif dwyieithog i'r achwynydd ym mis Awst 2015 (ac wedi esbonio nad oedd modd cael tystysgrif uniaith Gymraeg), ond wedi â methu cofnodi'r achos marwolaeth yn Gymraeg oherwydd cyfyngiadau a osodir ar y cofrestryddion dan y Registration of Births and Deaths (Welsh Language) Regs, 1987, a chanllawiau y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, sydd yn nodi bod rhaid nodi yr achos marwolaeth "yn union" fel y mae'n ymddangos ar dystysgrif y Crwner.

		Ymddengys bod hyn yn broblem gyffredin, gan mai dim ond un Crwner sydd yn gallu'r Gymraeg, ac felly bod yr achos marwolaeth yn cael ei nodi yn Saesneg yn amlach na pheidio. Anfonwyd ymateb i'r Comisiynydd, gan hefyd ofyn am unrhyw gymorth neu gyngor y gallent ei gynnig i ddylanwadu ar yr adrannau allanol hyn o'r llywodraeth sydd heb eu datganoli ond sydd yn effeithio ar allu y Cyngor i ddarparu'r gwasanaeth dwyieithog llawn y dymuna.

CWYNION ANFFURFIOL		
DYDDIAD	**CWYN**	**YMATEB.**
Medi 2015	Cyfeiriwyd (er gwybodaeth fwy na gweithrediad) atom wahoddiad uniaith Saesneg a dderbyniodd Cyngor Tref Pwllheli gan Plas Heli. Mynegwyd anfodlonrwydd cyffredinol am ddefnydd y Gymraeg yn y Plas a gwnaed ymholiad am Bolisi Iaith y Plas.	Cysylltwyd a Phlas Heli, a chafwyd gwybod eu bod wedi defnyddio asiantaeth allanol i farchnata'r digwyddiad dan sylw, ac nad oedd staff Plas Heli yn ymwybodol bod gwahoddiad uniaith Saesneg wedi ei anfon. Bu iddynt gysylltu a'r asiantaeth a chafodd gwahoddiad Cymraeg ei anfon o fewn ychydig ddyddiau. Ar fater polisi iaith ehangach Plas Heli: Nid yw'n eglur a oes gan Plas Heli bolisi iaith swyddogol neu beidio. Yn ôl y cytundeb lefel gwasanaeth a luniwyd rhwng y Cyngor a Phlas Heli, roedd disgwyl i Blas Heli lunio a mabwysiadu Polisi Iaith, ond nid ydym wedi derbyn copi er cysylltu i wneud cais dair gwaith.
Rhagfyr 2015	Derbyniwyd cais rhyddid gwybodaeth ynghylch Arolwg Tai ac Iaith Gwynedd ac Ynys Môn a gomisiynwyd gan hunaniaith. Roedd honiad yn cael ei wneud nad oedd yr ymchwil wedi ei bwysoli yn gywir ac nad oedd y Cyngor wedi derbyn cyngor	Anfonwyd ymateb gan yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yn nodi yn glir nad bwriad yr ymchwil oedd darparu darlun manwl cynhwysfawr, a bod y gwaith wedi cyflawni'r briff a osodwyd gan hunaniaith.

	ystadegydd proffesiynol ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd.	

3.2 Sgiliau Iaith Cyflogeion (Safon 170 (2) a))

Fel y nodwyd uchod, mae trefniadau ar y gweill i wella'r modd y bydd y Cyngor yn casglu data am lefel sgiliau iaith y gweithlu, ond cyflwynir yma y data am niferoedd staff, fesul gwasanaeth, sydd yn gallu'r Gymraeg, a faint o'r staff nad ydynt yn siarad Cymraeg.

GWASANAETH	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Addysg	Tîm Rheoli	Arfon	7	0
	Disgyblion a Chynhwysiad: **ADY:** Uwch Seicolegydd Anawsterau Iaith a Chyfathrebu Unedau ABC Gwybyddiaeth a Dysgu **Cynhwysiad:** Trac Pecyn 25 EMAS Diogelu Cwnsela Cynnal Ymddygiad Cynradd Profiad Gwaith Estynedig Gwasanaeth Lles Hyfforddiant Gartref Swyddogion Cefnogol / Cynorthwyol	Arfon, Meirion a Dwyfor 1 10 7 11 7 5 4 1 5 4 1 7 3 3	0
	Cyflogau a Chontractau Ysgolion	Arfon	4	0
	Llywodraethwyr	Arfon	2	0
	Arlwyo a glanhau	Arfon, Meirion a Dwyfor	5	0
	Gwasanaethau Ategol	Arfon	3	0
	Uned Gefnogi Addysg	Arfon Dwyfor	1 10	0 0
	Trefniadaeth Ysgolion	Arfon	7	0
	Y Gymraeg: Canolfannau Iaith Siarter Iaith	Arfon, Meirion a Dwyfor	 11 1	0

Addysg Cyfanswm	**119**	**0 (100% yn siarad Cymraeg)**

ADRAN	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Cefnogaeth Gorfforaethol	Cefnogol	Arfon	34	0
	Cyflawni a Chefnogi Newid	Arfon Môn	40 5	0
	Cyswllt Cwsmer a Chofrestru	Arfon Dwyfor Meirion	18 4 24	0
	Datblygu'r Sefydliad	Arfon	3	0 0 0
	Democratiaeth a Chyflawni	Arfon Meirion	46 2	0
	Dysgu a Datblygu	Arfon	9	0
	Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol	Arfon	13	0
	Iechyd, Diogelwch a Llesiant	Arfon	13	0
	Uned Reoli	Arfon	7	0
	Uned Wybodaeth	Arfon	6	0
Cefnogaeth Gorfforaethol - Cyfanswm			**224**	**0 (100% yn siarad Cymraeg)**

ADRAN	UNED	ARDAL	NIFER	NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG
Cyllid	Archwilio Mewnol	Arfon	8	0
	Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys	Arfon	3	0
	Cyflogau	Arfon	10	0
	Cyfrifeg	Arfon	39	0
	Pensiynau	Arfon	17	0
	Refeniw- Incwm/ Arianwyr	Arfon	11	0

	Taliadau/ Credydwyr	Arfon	7	0
	Refeniw- Trethi a Budd Dal	Arfon Dwyfor Meirion	30 15 9	0 0 0
	Rheolaeth Risg/ Yswiriant	Arfon	2	0
	Uned Reoli	Arfon	6	0
	Technoleg Gwybodaeth	Arfon	53	0
Cyllid Cyfanswm			**210**	**0** **(100% yn siarad Cymraeg)**

GWASANAETH	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
Economi a Chymuned	Adfywio Cymunedol	Arfon Dwyfor Meirionnydd	13 1 2	0 0 0
	Amgueddfeydd	Arfon Dwyfor Anhysbys	6 3 5	1 rhan-amser 0 0
	Archifau	Arfon Meirion	9 3	0 0
	Cefnogi Busnes	Arfon	6	0
	Celfyddydau	Arfon	1	0
	Celfyddydau Perfformio	Dwyfor Meirion	18 7	1 (wrth gefn)
	Ieuenctid	Arfon Bangor/Ogwen Dwyfor Meirion Llawn-amser	16 34 23 38 11	0 0 4 rhan-amser 0
	Morwrol	Dwyfor Meirion	16 2	0 1
	Orielau	Arfon Anhysbys	1 1	1 rhan-amser 0
	Parciau Gwledig	Arfon	6	0

	Prosiectau Sylweddol	Arfon Meirionnydd	5 1	0 0
	Sgiliau a Chyflogaeth	Arfon	3	0
	Strategaeth a Datblygu	Arfon	3	0
GWASANAETH	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
	Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer	Arfon Dwyfor Meirion	14 7 6	0 0 0
	Uned Reoli	Arfon	7	0
	Llyfrgelloedd	Arfon Dwyfor Meirion	29 9 15	0 0 0
	Canolfannau Hamdden	Arfon Dwyfor Meirion	124 65 70	1 0 2 di-Gymraeg 4 dysgwyr (siarad ychydig)
Economi a Chymuned Cyfanswm			**580**	**15 (97.4% yn siarad Cymraeg)**

ADRAN	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
Oedolion, Iechyd a Llesiant	Rheolaeth Tai	Arfon Dwyfor	3 1	0 0
	Cefnogi Pobl	Arfon	3	0
	Digartrefedd a Tai Cefnogol	Arfon Dwyfor Meirion TOT Arfon Hosteli	10 4 4 7 7	1 0 0 0 2
	Tai Sector Breifat	Arfon Meirion Dwyfor	7 10 8	0 0 1

	Cymunedau Iach		6	
	Diogelu ac Ansawdd		17	
	Busnes		98	0
	Gwasanaeth Darparu		1178	134
	Oedolion		136	4
	Uned Reoli		35	5
	Cyfarwyddwr Corfforaethol		1	0
Cyfanswm Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd			**1516**	**139 ddim yn siarad Cymraeg (90.4% yn siarad Cymraeg)**

GWASANAETH	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd	Tîm Rheoli		5	
	Gweinyddol (Tîm Rheoli)		1	0
	Tîm Plant	Arfon Dwyfor Meirionydd	18 7 8	 (1+ 1 dros dro)
	Derbyn Cyfeiriadau Plant		9	0
	Maethu		13	0
	Mabwysiadu		2.5	0
	16+		8	0
	Derwen	Staff cyflogedig gan y Cyngor Staff cyflogedig gan Bwrdd Iechyd Gweithwyr Cefnogol	24 13 86	0 1 4
	Tîm Cefnogol		39	0
	Trothwy Gofal		14	0

	Uned Diogelu ac Ansawdd		10	0
	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid		29	2
	Gyda'n Gilydd		7	0
	Dechrau'n Deg		42	0
Cyfanswm Gwasanaethau Plant a Chefnogi Teuluoedd			**322.5**	**9 ddim yn siarad Cymraeg (97.2% yn siarad Cymraeg)**

GWASANAETH	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Comisiynu	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	20 10 10 15	0 0 0 0
	Fflyd	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	9 9 7 4	0 0 0 0
	Gwaith Bwrdeistrefol	Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	104 71 79 75	2 1 5 0
	Gwaith Priffyrdd	Môn Arfon Dwyfor Meirion Anhysbys	2 21 17 30 39	0 1 0 3 0
	Trin Gwastraff	Arfon Meirion Anhysbys	2 10 5	0 1 0
	Uned Rheoli	Arfon Anhysbys	3 1	0 0
Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyfanswm			**543**	**13 (97.6% yn siarad Cymraeg)**

GWASANAETH	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
Rheoleiddio				

	Trafnidiaeth (yn cynnwys Croeswyr Plant a Swyddogion Gorfodaeth)	Arfon Dwyfor Meirionydd	38 9 11	2 2 4
Cyfanswm Gwasanaethau				

DS: gwybodaeth ddim yn gyflawn. Gwasanaeth yn dal i gasglu eu data blynyddol wrth lunio'r adroddiad hwn.

GWASANAETH	**UNED**	**ARDAL**	**NIFER**	**NIFER DDIM YN SIARAD CYMRAEG**
Ymgynghoriaeth (YGC)	Adeiladu	Arfon Meirion Dwyfor	13 0 0	1 0 0
	Prosiectau	Arfon Meirion Dwyfor	16 1 3	1 0 0
	Uned Fusnes	Arfon Meirion Dwyfor	9 0 0	1 0 0
	Uned Reoli	Arfon Meirion Dwyfor	3 0 0	0 0 0
	Uned Dechnegol	Arfon Meirion Dwyfor	28 1 0	1 0 0
	Uned Dwr a'r Amgylchedd	Arfon Meirion Dwyfor	12 2 7	0 0 0
	Uned Rheolaeth Adeiladu	Arfon Meirion Dwyfor	11 3 0	0 0 0
Ymgynghoriaeth Cyfanswm			**109**	**96.34% yn siarad Cymraeg)**

3.2 Nifer staff sydd yn derbyn hyfforddiant Cymraeg (Safon 170 (2) b)a c))

Gofynna **Safonau 152 ac 170**, i'r Cyngor nodi nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Nid yw'r tîm Dysgu a Datblygu hyd at Fawrth 2016 wedi bod yn casglu data sydd yn dangos union nifer y staff sydd yn mynychu cyrsiau Cymraeg, o'u cymharu a hyfforddiant Saesneg, gan bod mwyafrif helaeth yr hyfforddiant corfforaethol yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r

ffigyrau a gyflwynir ar gyfer y flwyddyn 2015-16 felly yn dilyn yr hen drefn o gofnodi nifer y sesiynau hyfforddi ym mhob iaith.

Mae trefniadau ar y gweill i newid y ffordd y bydd y wybodaeth am fynychwyr a cyfrwng y cyrsiau yn cael eu cofnodi er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'r gofyn adrodd hwn yn y dyfodol.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2015 i Mawrth 2016, dyma'r nifer o gyrsiau a gynhaliwyd ym mhob iaith:

TEITLAU	**NIFER**	**CANRAN**
Cymraeg	358	81.7%
Dwyieithog	30	6.8%
Saesneg	50	11.4%
CYFANSWM	**438**	

Caiff y teitlau hyfforddi mewnol i gyd eu cynnig yn ddwyieithog, gyda tua 95% o'r hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y cyfnod dan sylw yn hyfforddiant mewnol.

Mynychwyd y cyrsiau hyn gan gyfanswm o **3218** o unigolion, sydd yn golygu, ar gyfartaledd (seiliedig ar 7 mynychwr y sesiwn ar gyfartaledd), bod tua 2,700 84% o'r staff a fynychodd hyfforddiant wedi gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr unig achlysur lle y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol lle mae diffyg hyfforddwyr cymwys Cymraeg. Yn yr achos yma, rydym wedi bod yn ystyried sut orau i hwyluso'r broses o gynnig yr hyfforddiant hyn yn ddwyieithog (er enghraifft drwy sicrhau bod gofyn i'r hyfforddwyr ddarparu unrhyw ddeunydd darllen yn ddwyieithog). Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ystod 2015-16 hefyd, derbyniodd **40** aelod o staff hyfforddiant i ddysgu Cymraeg.

Mae'r dysgwyr yn derbyn eu hyfforddiant gan y darparwyr isod:

- Yn fewnol – Tiwtor/Cydgysylltydd y Gymraeg, Cyngor Gwynedd
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Aberystwyth
- Colegau Grŵp Llandrillo Menai

Natur y ddarpariaeth – mae'r dysgwyr yn derbyn un o'r isod neu gyfuniad ohonynt:

- Cyrsiau rheolaidd dros y flwyddyn – wythnosol (unwaith neu ddwywaith yr wythnos)
- Cyrsiau dwys – Ysgolion Haf/Calan yn Aberystwyth, Dolgellau, Bangor, Pwllheli, Yr Wyddgrug wedi eu trefnu gan y darparwyr
- Cwrs 3 diwrnod Medi – Cymraeg yn y Gweithle – Prifysgol Bangor. Wedi ei ddarparu ar gyfer sefydliadau o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng ngogledd Cymru i wella sgiliau iaith yn y gweithle.

- Cyrsiau Gloywi Iaith – Cyrsiau dros gyfnod wedi eu hachredu ac wedi eu darparu gan Grŵp Llandrillo Menai

Yn ogystal a hyn, mynychodd **11** o unigolion hyfforddiant "**Gwella Cymraeg Ysgrifenedig i siaradwyr Cymraeg**" yn ystod 2015 – 16.

3.3 Categoreiddio swyddi (Safon 170 (2) c))

Caiff y Gymraeg flaenoriaeth amlwg wrth recriwtio yng Nghyngor Gwynedd. Ni chaiff yr un swydd ei hysbysebu heb iddi fod yn cynnwys gofynion ieithyddol.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2015 i Mawrth 2016, hysbysebwyd **397** o swyddi ar draws y Cyngor, a phob un ohonynt yn cael eu hysbysebu gyda "sgiliau Cymraeg yn hanfodol".

Serch hynny, mae trafferthion recriwtio mewn rhai meysydd wedi arwain at adnabod yr angen i sefydlu trefn newydd i asesu union anghenion lefel iaith swyddi (newydd a phresennol) fydd yn galluogi'r adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod y lefelau iaith mwyaf priodol yn cael eu gosod ar gyfer pob swydd. Fel rhan o'r system asesu sgiliau newydd hon, bydd cofnodion manwl yn cael eu cadw o'r swyddi newydd a gaiff eu hysbysebu a'u lefel sgiliau iaith. Bydd hyn hefyd yn galluogi gwell trefn o fonitro cynnydd a datblygiad unrhyw staff a gaiff eu penodi heb y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Bydd yn parhau i fod yn ofyniad hanfodol i gael sgiliau Cymraeg, ond bod yr union lefel o sgiliau yn cael ei addasu yn ôl natur y swydd.

Mehefin 2016